**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: HIDCC/PO/0283/24 (MA/LG/2749/23)

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru

11 Hydref 2024

Annwyl Paul,

Ymhellach i'r llythyr  a anfonwyd at y Pwyllgor ar 12 Chwefror 2024 gan fy rhagflaenydd, Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd ar y pryd, sef Lesley Griffiths AS ynghylch Rheoliadau Fframwaith Windsor (Symud Anifeiliaid Anwes yn Anfasnachol) 2024 ('Rheoliadau 2024').  Roedd y llythyr yn hysbysu'r Pwyllgor o'i bwriad i roi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol i Offeryn Statudol y DU hwn fod yn gymwys yng Nghymru.

Rwy'n ysgrifennu i hysbysu'r Pwyllgor fod Rheoliadau 2024 wedi eu gosod gerbron Senedd y DU ddoe, 10 Hydref. Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig. I'w weld, ewch i.

Er mai'r bwriad gwreiddiol oedd gosod Rheoliadau 2024 gerbron Senedd y DU ym mis Chwefror 2024, ni ddigwyddodd hyn er mwyn gallu cynnal trafodaethau pellach gyda'r Undeb Ewropeaidd ar gyflawni gweithredol. Yn dilyn trafodaethau boddhaol, mae swyddogion Llywodraeth y DU wedi cadarnhau nad oedd angen unrhyw welliannau, ac ar wahân i gyflwyno dyddiadau dod i rym yn raddol, mae'r drafft yr un fath ag yr oedd pan roddwyd cydsyniad ym mis Chwefror 2024. Er y newid mewn Llywodraeth, rwy'n fodlon bod y cydsyniad a roddwyd ym mis Chwefror yn dal yn ddilys.

Mae'r Rheoliadau yn gorgyffwrdd â pholisïau datganoledig a byddant yn gymwys i Gymru. Bydd y Rheoliadau, sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, yn cwmpasu Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Bydd Rhannau 1, 2, a 4 yn dod i rym ar 31 Mawrth 2025. Bydd yr holl rannau eraill yn dod i rym ar 4 Mehefin 2025.

Egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, ond yn yr achos hwn, ystyriwyd y byddai'n briodol i'r Rheoliadau fod yn gymwys i Gymru. Nid wyf o'r farn mai deddfu i Gymru ar wahân fyddai'r ffordd fwyaf priodol o roi effaith i'r newidiadau sydd eu hangen. Mae creu rheoliadau sy'n cwmpasu Prydain Fawr i gyd yn sicrhau cysondeb ar draws y DU, gan osgoi gwahaniaethau deddfwriaethol a allai beryglu'r broses barhaol o weithredu Fframwaith Windsor.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf wedi ysgrifennu yn yr un modd at Mike Hedges AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs